Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Ymateb i Ymgynghoriad / Consultation Response

| | |
|---|---|
| **Enw / Name:** | Owen Evans |
| **Rôl / Role:** | Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru |
| **E-bost / Email:** | Prif-arolygydd@estyn.llyw.cymru |
| **Rhif Ffôn / Tel No:** | 029 2044 6446 |
| | |
| **Dyddiad / Date:** | 17.06.22 |
| **Pwnc / Subject:** | **Ymgynghoriad ar safonau hyfforddiant diogelu cenedlaethol** |

## Gwybodaeth gefndir am Estyn

Estyn yw Swyddfa Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru. Fel corff y Goron, mae rydym yn annibynnol ar Lywodraeth Cymru.

Ein prif nod yw codi safonau a gwella ansawdd addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Caiff hyn ei nodi yn Neddf Dysgu a Sgiliau 2000 a Deddf Addysg 2005 yn bennaf. Wrth gyflawni ei swyddogaethau, mae'n rhaid i ni ystyried:

- Ansawdd addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Y graddau y mae addysg a hyfforddiant yn bodloni anghenion dysgwyr;
- Y safonau addysgol a gyflawnir gan ddarparwyr addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Ansawdd arweinyddiaeth a rheolaeth y darparwyr addysg a hyfforddiant hynny;
- Datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol dysgwyr; a'r
- Cyfraniad a wneir at les dysgwyr.

Mae ein cylch gwaith yn cynnwys (ond nid yn unig) meithrinfeydd a lleoliadau nas cynhelir, ysgolion cynradd, ysgolion uwchradd, ysgolion annibynnol, unedau cyfeirio disgyblion, addysg bellach, dysgu oedolion yn y gymuned, gwasanaethau addysg llywodraeth leol, dysgu yn y gwaith, ac addysg a hyfforddiant athrawon.

Gallwn roi cyngor i'r Senedd Cymru ar unrhyw fater sy'n gysylltiedig ag addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Er mwyn cyflawni rhagoriaeth i ddysgwyr, rydym wedi pennu tri amcan strategol:

- Darparu atebolrwydd i ddefnyddwyr gwasanaeth ar ansawdd a safonau addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Llywio datblygiad polisi cenedlaethol gan Lywodraeth Cymru;
- Meithrin gallu i wella'r system addysg a hyfforddiant yng Nghymru.

Nid yw'r ymateb hwn yn gyfrinachol.

**Ymateb**

| |
|---|
| Rydym yn cefnogi cyflwyno'r Safonau Hyfforddiant Diogelu Cenedlaethol ac yn croesawu'r ffocws ar wella cysondeb ac ansawdd hyfforddiant diogelu ledled Cymru.<br><br>Trwy ein gwaith, rydym wedi gweld bod angen hyfforddiant diogelu o ansawdd uchel ar draws y sector addysg a hyfforddiant. Yn gynharach eleni, cyhoeddom adolygiad thematig ar aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion[1] lle clywsom "neges glir a chyson gan yr holl ysgolion am yr angen am fwy o hyfforddiant diogelu a chymorth gwell".<br><br>Hefyd, yn ddiweddar, rydym wedi adrodd ar yr effaith gadarnhaol y gall hyfforddiant diogelu mwy unigoledig ei chael. Ym mis Chwefror 2020, fe wnaethom hyrwyddo astudiaeth achos arfer effeithiol Cyngor Sir Fynwy[2] sydd, trwy werthuso anghenion hyfforddi unigolion, wedi gwella trefniadau diogelu ac "ymgorffori dealltwriaeth ar y cyd o brosesau a safonau diogelu".<br><br>Nod y Safonau Hyfforddiant Diogelu Cenedlaethol yw dod â'r elfennau hyn at ei gilydd. Eu nod yw mynd i'r afael â'r angen am hyfforddiant cyson, o ansawdd uchel, ond hefyd i'r hyfforddiant fod yn fwy targedig a phriodol i rolau ymarferwyr. Yn eu fformat arfaethedig, mae'r safonau hefyd yn gwneud hyfforddiant diogelu yn ofyniad, yn hytrach nag arfer dda. Rydym yn gobeithio y bydd cyflwyno'r safonau hyn yn arwain at drefniadau diogelu cryfach a mwy rhagweithiol mewn darparwyr addysg a sectorau eraill.<br><br>Fodd bynnag, o fewn drafft presennol y safonau, mae amwyseddau bach o hyd a fyddai'n rhoi'r cyfrifoldeb am bennu lefel neu fanylder yr hyfforddiant ar sefydliad unigol. Felly, mae perygl y bydd rhai o'r anghysondebau y mae'r safonau'n anelu at eu gwaredu yn parhau.<br><br>Ar hyn o bryd, rydym yn peilota ymagwedd newydd at arolygu sy'n canolbwyntio ar ba mor dda y mae staff a llywodraethwyr yn hyrwyddo diwylliant diogelu cryf yn eu cymuned, a pha mor dda y maent yn deall ac yn hyrwyddo ymagweddau diogelu'r ysgol. Efallai y bydd ein gwaith yn y dyfodol yn gallu asesu effaith y Safonau Hyfforddiant Diogelu Cenedlaethol ar draws darparwyr perthnasol wrth i ni werthuso diwylliant a threfniadau diogelu pob darparwr. |

**Cwestiynau'r ymgynghoriad**

Rydym yn croesawu eich barn am y Safonau Hyfforddiant Diogelu Cenedlaethol a byddem yn ddiolchgar pe gallech gymryd yr amser i ateb y cwestiynau canlynol:

| **1. Ydych chi'n cytuno bod y safonau hyfforddiant hyn yn cyd-fynd â'r trefniadau diogelu presennol? (Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a Gweithdrefnau Diogelu Cymru)** | | | |
|---|---|---|---|
| Ydw | ☒ | Nac ydw | ☐ |
| Rydym yn cefnogi cyflwyno'r safonau hyfforddiant hyn, sy'n cyd-fynd yn dda â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a Gweithdrefnau Diogelu Cymru. Hefyd, credwn y bydd cyflwyno'r safonau hyn yn cryfhau gweithredu'r deddfau hyn mewn nifer o ffyrdd, sef: | | | |

**1) Bydd hyfforddiant diogelu yn dod yn *ofyniad***

Ar hyn o bryd, mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn datgan:

> "mae'n arfer dda i bawb sy'n ymwneud â'r ddarpariaeth neu'r gwasanaeth ymgymryd â hyfforddiant diogelu sylfaenol".

O fewn y safonau hyfforddiant arfaethedig, rydym yn cytuno bod yn rhaid i bawb o fewn sefydliad gael hyfforddiant grŵp A o leiaf. Bydd hyn yn sicrhau ei bod yn ofynnol i sefydliadau ddarparu lefel sylfaenol o hyfforddiant diogelu i'r holl gyflogeion a gwirfoddolwyr, yn hytrach na bod hyn yn "arfer dda" yn unig.

Rydym yn cefnogi'r symud tuag at wneud hyfforddiant diogelu yn ofyniad gan y bydd hyn yn cynyddu'r ddealltwriaeth gyffredinol o ddiogelu o fewn sefydliad. Bydd hyn yn arwain at nodi ac ymyrryd yn gynharach, a deilliannau gwell ar gyfer unrhyw un sydd mewn perygl.

**2) Cysondeb a chludadwyedd hyfforddiant**

Mae yna lawer o wahanol ffynonellau hyfforddiant diogelu yng Nghymru. Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn cyfeirio sefydliadau naill ai at eu bwrdd diogelu rhanbarthol neu sefydliadau eraill i nodi cyrsiau hyfforddi. O ganlyniad, ni chaiff cysondeb ac ansawdd yr hyfforddiant ei sicrhau, ac nid yw'n sicr chwaith y bydd yr hyfforddiant yn berthnasol i rolau cymaradwy ym mhob ardal o Gymru. Dylai'r safonau hyfforddiant helpu'r gwahanol ffynonellau hyfforddiant hyn i gyd-fynd yn agosach â'u cyrsiau, yn enwedig â lefel y manylder a ddarperir ym mhob grŵp. Hefyd, bydd y safonau hyfforddiant yn helpu sicrhau bod sefydliadau'n gallu gwirio'r hyfforddiant hwnnw'n haws, naill ai drwy gael ei gyflwyno'n fewnol neu'i ddarparu gan gyflenwyr allanol, bod yr hyfforddiant yn berthnasol a chyfoes, ac wedi iddynt hyfforddi, bod unigolion yn gallu teimlo'n sicr fod eu hyfforddiant yn parhau i fod yn berthnasol i wahanol sefydliadau a gwahanol ranbarthau o Gymru.

**2. A yw'r chwe grŵp (A i F) a amlinellir yn y safonau yn cynrychioli'r prif rolau yn y broses ddiogelu? Os oes unrhyw beth ar goll neu'n ddiangen, rhowch wybod i ni yn y blwch isod.**

Ydyn ☐ Nac ydyn ☒

Yn benodol ar gyfer y sector addysg, teimlwn nad yw'r disgrifiadau o 'grŵp ymarferwyr' ar dudalen 11, lleoli rolau yn y broses ddiogelu sy'n dechrau ar dudalen 12, a'r crynodeb o'r grwpiau ar dudalen 15 yn ddigon clir. Byddai'r cynnig yn gryfach pe bai'r disgrifiadau'n gliriach.

Er enghraifft, o fewn darparwyr addysg, mae gan yr Unigolyn Diogelu Dynodedig (UDD) gyfrifoldebau penodol ar gyfer diogelu plant, ond yn aml, yn ymarferol, yr unigolyn hwn yw'r arweinydd strategol hefyd, a'r sawl sy'n gwneud penderfyniadau ar faterion diogelu. Byddai'r hierarchaeth o ddisgrifiadau o ymarferwyr ar dudalen 11 yn gosod rôl UDD naill ai yng ngrŵp D neu grŵp E, byddai'r crynodeb o'r grwpiau ar dudalen 15 yn ei osod yng ngrŵp D. Fodd bynnag, yn nhabl y broses ddiogelu sy'n dechrau ar dudalen 12, mae rôl yr UDD yn disgyn i grŵp C.

Credwn mai Grŵp C yw'r grŵp mwyaf priodol ar gyfer yr UDD / pennaeth darparwr addysgol. O ran diogelu, mae eu rolau yn weithredol wrth iddynt weithredu strategaethau

neu ddarparu gwybodaeth i'r asiantaeth arweiniol, ond nhw sydd hefyd yn gwneud y penderfyniadau o fewn eu sefydliadau priodol.

Hefyd, yn ymarferol, mae llawer o ddarparwyr addysgol yn defnyddio hierarchaeth fugeiliol o fewn eu trefniadau diogelu sy'n eistedd rhwng athrawon a phenaethiaid, er enghraifft Penaethiaid Blwyddyn. Byddai ymarferwyr yn y rolau arbenigol hyn yn elwa ar lefel well o hyfforddiant nag athrawon a chynorthwywyr addysgu, sef grŵp B ar hyn o bryd. Credwn y byddai'r cynnig yn gryfach trwy osod yr ymarferwyr hyn yng ngrŵp C.

Rydym yn cydnabod nad darparwyr addysgol yw'r asiantaeth arweiniol ar gyfer diogelu. Fodd bynnag, o dabl y broses ddiogelu sy'n dechrau ar dudalen 12, nid yw'n glir sut bydd materion diogelu o fewn addysg yn cael eu codi i ymarferwyr â hyfforddiant grŵp E. Gellid dehongli bod y tabl ar dudalen 12/13 yn dangos bod nenfwd ar hyfforddiant diogelu o fewn y sector addysgol.

Byddai'r cynnig yn gryfach trwy ailddylunio tabl y broses ddiogelu i adlewyrchu sut caiff sefyllfaoedd diogelu fel arfer eu codi trwy'r gwahanol asiantaethau. Gellid gosod y sectorau hynny sy'n bwydo i mewn i asiantaethau sy'n fwy tebygol o arwain i'r chwith, gwasanaethau cymdeithasol fel yr asiantaeth arweiniol fwyaf tebygol i'r ochr dde bellaf, a gallai saethau ddangos y lefel y mae sefyllfaoedd diogelu fel arfer yn cael eu huwchgyfeirio iddi.

Yn olaf, nid oes gan bob darparwr addysgol, er enghraifft ysgolion annibynnol, darparwyr ôl-16 a ariennir yn breifat a darparwyr tiwtora gartref, lwybrau wedi'u diffinio'n glir i gael mynediad at hyfforddiant gan ymarferwyr a sefydliadau o fewn grwpiau D, E a F. Rhaid i'r sefydliadau hyn ystyried drostyn nhw eu hunain, trwy asesiad risg, p'un a ddylent gynnig hyfforddiant grŵp D ai peidio, naill ai i'w pennaeth neu Unigolyn Diogelu Dynodedig (UDD).

**Sylwer, nid oes disgwyl i chi allu ateb ar bob grŵp (C3 i 8) ond ceisiwch ateb y rhai sy'n berthnasol i chi a/neu'ch gweithlu.**

**3. A yw Grŵp A yn glir ac a yw'n rhoi digon o wybodaeth? Os oes unrhyw beth ar goll neu'n ddiangen, rhowch wybod i ni yn y blwch isod.**

| Ydy | ☐ | Nac ydy | ☒ |
|---|---|---|---|

**Rolau a chyfrifoldebau**

Yn yr adran hon, mae'r ddogfen yn datgan bod gofyn i ymarferwyr yng ngrŵp A "fod yn ymwybodol o faterion diogelu". Gan nad yw ymwybyddiaeth yn fesuradwy, byddai'r cynigion yn gryfach trwy sicrhau ei bod yn ofynnol i ymarferwyr yng ngrŵp A "gael dealltwriaeth sylfaenol o faterion diogelu" er mwyn iddynt allu cymhwyso'r wybodaeth hon os yw'r angen yn codi. Wedyn, byddai'r datganiad hwn yn cyd-fynd yn agosach â'r tair egwyddor gofiadwy, sef: 'Rwy'n gwybod beth mae'r term diogelu yn ei olygu', 'Rwy'n gwybod am beth i gadw golwg amdano', ac 'Rwy'n gwybod wrth bwy i adrodd'.

**1(a)(2) Y prif gategorïau cam-drin ac esgeulustod**

**1(a)(4) Meysydd risg sefyllfaol eraill a allai arwain at gam-drin, niwed ac esgeulustod**

Er mwyn sicrhau cysondeb, dylai’r safonau 1(a)(2) ac 1(a)(4) ddatgan yn fanwl gywir beth a ystyrir yw’r prif gategorïau cam-drin a risg sefyllfaol. Er enghraifft, corfforol, rhywiol, emosiynol, domestig, rhwng cyfoedion, ac ati. Heb fod yn rhagnodol, mae perygl na fydd ymdriniaeth ddigonol â mathau pwysig o gam-drin neu risgiau sefyllfaol yn yr hyfforddiant.

Byddai’r cynigion yn gryfach trwy gynnwys datganiad sy’n ei gwneud yn glir fod lleoliadau yn gyfrifol am asesu risg pob math o gam-drin a risg sefyllfaol, a dylent greu rhestr o’r prif gategorïau cam-drin a risgiau sefyllfaol yng nghyd-destun eu lleoliad. Wedyn, gellid ychwanegu’r asesiad risg hwn a’r rhestr fireiniedig o gategorïau cam-drin a risgiau sefyllfaol at bolisi diogelu’r lleoliad.

**1(a)(7) Rolau gwahanol asiantaethau a phobl eraill sy’n ymwneud â diogelu lles pobl, yng nghyd-destun y lleoliad**

Mae’n bwysig cymhwyso’r safon hon yn ei chyd-destun i sicrhau bod yr hyfforddiant ar gyfer pobl yng ngrŵp A yn canolbwyntio’n graff ar yr asiantaethau priodol ar gyfer eu lleoliad.

**1(a)(8) Rôl a chyfrifoldebau ymarferwyr mewn diogelu**

Byddem yn argymell diwygio’r safon hon i ddweud:

> “*Rôl a chyfrifoldebau ymarferwyr mewn diogelu, yng nghyd-destun y lleoliad”*

i sicrhau bod yr hyfforddiant ar gyfer pobl yng ngrŵp A yn canolbwyntio’n graff ar ddeall rolau a chyfrifoldebau uwch arweinwyr yn eu lleoliad eu hunain.

**4. A yw Grŵp B yn glir ac a yw’n rhoi digon o wybodaeth? Os oes unrhyw beth ar goll neu’n ddiangen, rhowch wybod i ni yn y blwch isod.**

Ydy ☐ Nac ydy ☒

Mae sawl un o’r safonau yng ngrŵp B wedi’u dyblygu’n fanwl gywir, er enghraifft:

2(a)(5) a 2(a)(8)

A

2(a)(6) a 2(b)(1).

Dylid dileu un neu’r llall, fel y bo’n briodol.

Mae safon 2(b)(5) a 2(b)(8) wedi eu hysgrifennu’n wahanol, ond mae iddynt ystyr tebyg, a gellid eu huno â’i gilydd. Trwy ‘ategu eich dyletswydd gofal’, byddwch chi’n ‘dilyn egwyddorion diogelu’, a, ‘trwy ategu hawliau pobl’, byddech chi hefyd ‘yn cynorthwyo pobl i sicrhau cydbwysedd rhwng eu hawliau a’u cyfrifoldebau’.

Nid yw safonau 2(b)(6), 2(b)(10) a 2(b)(11), sy’n disgyn yn y categori yn dwyn y teitl ‘Sut i weithio mewn ffyrdd sy’n diogelu pobl rhag cam-drin, niwed ac esgeulustod’ yn canolbwyntio ar sut dylai ymarferwyr weithio. Yn hytrach, maent yn canolbwyntio ar yr hyn y dylai ymarferwyr ei ddweud, ei wneud, neu ei addysgu i bobl am ddiogelu ac aros yn ddiogel. Mae’n ymddangos bod hyn yn gwrth-ddweud y trosolwg o grŵp B (tud. 21) lle mae’n datgan “ni fyddai disgwyl i ymarferwyr roi cyngor am ddiogelu i bobl eraill”. Rydym yn awgrymu y dylid symud y safonau hyn i grŵp C.

| **5. A yw Grŵp C yn glir ac a yw'n rhoi digon o wybodaeth? Os oes unrhyw beth ar goll neu'n ddiangen, rhowch wybod i ni yn y blwch isod.** | | | |
|---|---|---|---|
| Ydy | ☐ | Nac ydy | ☒ |
| Mae safonau 3(f)(1) a 3(f)(2) yn canolbwyntio ar weithio gydag ymarferwyr ac asiantaethau eraill a byddent yn eistedd o fewn y grŵp o safonau 3(h) Gweithio gyda phobl eraill i ddiogelu pobl yn fwy priodol. Er enghraifft, mae 3(f)(1) yn cyfeirio at gymryd rhan mewn cyfarfodydd ac adolygiadau, tra bod 3(h)(7) yn cyfeirio at gadeirio adolygiadau / cyfarfodydd o'r fath.<br><br>Hefyd, mae safonau 3(f)(3), 3(f)(4), 3(f)(5) a 3(f)(6) yn canolbwyntio ar ddealltwriaeth ymarferwyr o brosesau a gwerthuso effeithiolrwydd eu sefydliad eu hunain, ac felly, byddai'r rhain yn eistedd yn gyfforddus o fewn 3(i) Cynnal atebolrwydd proffesiynol. | | | |

| **6. A yw Grŵp D yn glir ac a yw'n rhoi digon o wybodaeth? Os oes unrhyw beth ar goll neu'n ddiangen, rhowch wybod i ni yn y blwch isod.** | | | |
|---|---|---|---|
| Ydy | ☒ | Nac ydy | ☐ |
| Er bod safon 4(d)(6) yn eistedd ochr yn ochr â safon 4(d)(1) a gellid ei hyrwyddo i frig y rhestr o fewn adran 4(d) Cynorthwyo pobl eraill i ddiogelu pobl. | | | |

| **7. A yw Grŵp E yn glir ac a yw'n rhoi digon o wybodaeth? Os oes unrhyw beth ar goll neu'n ddiangen, rhowch wybod i ni yn y blwch isod.** | | | |
|---|---|---|---|
| Ydy | ☒ | Nac ydy | ☐ |
| Dim | | | |

| **8. A yw Grŵp F yn glir ac a yw'n rhoi digon o wybodaeth? Os oes unrhyw beth ar goll neu'n ddiangen, rhowch wybod i ni yn y blwch isod.** | | | |
|---|---|---|---|
| Ydy | ☐ | Nac ydy | ☒ |
| Nid yw arferion yn canolbwyntio ar y plentyn / unigolyn yn ymddangos o fewn yr hyfforddiant arfaethedig ar gyfer ymarferwyr yng ngrŵp F.<br><br>Mae'n hynod bwysig, o fewn cyd-destun addysgol, fod ymarferwyr yng ngrŵp F yn cael hyfforddiant ar hyrwyddo arferion yn canolbwyntio ar y plentyn / unigolyn. Mae'r ymarferwyr hyn yn cynnwys y cyrff llywodraethol sy'n darparu goruchwyliaeth hanfodol o drefniadau diogelu o fewn darparwyr addysgol ac yn gweithredu fel ffrindiau beirniadol. Os nad oes gan yr ymarferwyr sy'n cynnwys cyrff llywodraethol ddealltwriaeth ddigonol o egwyddorion arferion yn canolbwyntio ar y plentyn / unigolyn, byddant yn llai tebygol o fod yn effeithiol o ran hyrwyddo'r ymagwedd hon, neu'n nodi ble mae angen gwella'r arferion hyn.<br><br>Mae'r egwyddorion cofiadwy ar dudalen 46 yn datgan y bydd ymarferwyr grŵp F "yn cael eu harwain gan ymarferwyr grŵp E ac yn cael sicrwydd ganddynt ar feysydd pryder". Nid | | | |

yw'n glir sut bydd hyn yn cael ei sefydlu, oherwydd o fewn y sector addysg, nid yw'r safonau'n nodi unrhyw rolau gyda lefel hyfforddiant grŵp E.

**9. Ydych chi'n adnabod eich gweithlu neu'ch rôl eich hun yn y disgrifiadau grŵp? Os na, sut gallwn ni eu gwneud nhw'n gliriach?**

Ydw ☐ Nac ydw ☒

Nid yw'r disgrifiadau grŵp ar gyfer y sector addysg yn cynnwys ein gweithlu, ei arolygwyr nac arweinwyr diogelu. Byddai'n fuddiol i'r sector fod yn ymwybodol o lefel hyfforddiant Arolygwyr Ei Mawrhydi, a byddem yn awgrymu bod hyn yn gyfuniad o lefel grŵp C a grŵp F.

**10. Pa gyfleoedd y mae angen i sefydliadau feddwl amdanynt wrth ymgorffori'r safonau?**

Gallai dealltwriaeth well o ddiogelu ar draws sefydliad arwain at nodi'n gynharach a chyfleu pryderon ynghylch diogelu yn well. Wedyn, gallai plant / oedolion sydd mewn perygl gael ymyrraeth yn gynharach, a gallai sefydliadau brofi cyfraddau is o achosion mwy cymhleth.

Gallai hyfforddiant fod yn fwy cludadwy, ac efallai na fydd rhaid i sefydliadau ailadrodd pob agwedd ar hyfforddiant diogelu o fewn eu proses ymsefydlu staff.

**11. Pa heriau y mae angen i sefydliadau feddwl amdanynt wrth ymgorffori'r safonau?**

Bydd goblygiadau o ran amser a chostau wrth ymgorffori'r safonau.

Ar gyfer darparwyr addysgol, efallai na fydd hyn yn ormodol gan eu bod eisoes yn neilltuo amser ac adnoddau ariannol i hyfforddiant diogelu. Fodd bynnag, os caiff y safonau eu mabwysiadu, byddai'n rhaid i bob aelod o staff ymgymryd â'r hyfforddiant newydd a allai fod â goblygiadau digynllun o ran amser a chostau.

Hefyd, rhaid ystyried lefel uchel ddisgwyliedig y galw a fydd ar sefydliadau sy'n darparu'r hyfforddiant ar gyfer y safonau newydd, yn enwedig pan gânt eu rhoi ar waith i ddechrau. Mae'n bwysig fod sefydliadau'n gallu manteisio ar gyrsiau a deunyddiau hyfforddi newydd, ac nad yw eu costau'n cynyddu'n ormodol oherwydd y galw.

**12. A oes yna unrhyw beth arall y dylem ei gynnwys yn y safonau? Os felly, beth ddylai hyn fod?**

**1) Cyfnodau ar gyfer cwblhau a gloywi hyfforddiant**

Nid yw'r safonau hyfforddiant yn ei gwneud yn glir ar ba adeg yn ystod y broses recriwtio y dylid cwblhau'r hyfforddiant diogelu a gloywi. Maent yn dweud ar dudalen 6:

> "bydd y rhan fwyaf o ymarferwyr yn cwblhau e-ddysgu grŵp A ar ryw adeg yn eu gyrfa. Gallai sefydliadau a rheolwyr osod gofynion o fewn eu sefydliad ar gyfer cwblhau'r modiwl hwn."
>
> a:
>
> "byddant yn parhau â'u hyfforddiant gloywi ar ddiogelu yn unol â'u rôl a'u cyfrifoldeb am y grŵp hwnnw."

Mae'r safonau'n ei gadael i sefydliadau bennu pryd i gynnig hyfforddiant diogelu i'w hymarferwyr, a fyddai, yn achos y sector addysg, yn gwrthdaro â chanllawiau statudol.

Mae Cadw Dysgwyr yn Ddiogel (283/2022) yn datgan:

> "sicrhau bod hyfforddiant sefydlu ar gyfer pob aelod newydd o staff sy'n gweithio mewn lleoliad addysg…yn cynnwys hyfforddiant ar ddiogelu". (tud.14)
>
> a:
>
> "Dylai pob aelod o staff ymgymryd â hyfforddiant gloywi yn ddelfrydol o fewn dwy flynedd, ond ni ddylid gadael cyfnod o fwy na thair blynedd rhwng hyfforddiant". (tud.21)

Os caiff y safonau eu mabwysiadu, byddai gofyn i ymarferwyr sy'n gweithio o fewn y sector addysg ymgymryd â hyfforddiant grŵp A, o leiaf, cyn dechrau ar eu dyletswyddau a chwrs gloywi yn ystod eu dwy i dair blynedd nesaf.

Os yw'r safonau am gyflawni hyfforddiant cyson o fewn gwahanol sectorau ac ar eu traws, yna mae angen parchu'r cyfnodau ar gyfer cwblhau a gloywi hyfforddiant.

Felly, byddai'r safonau'n gryfach trwy gynnwys y cyfnodau rheoleiddio ar gyfer cwblhau lefel briodol yr hyfforddiant diogelu ym mhob sector.

**2) Isafswm lefel yr hyfforddiant**

Nid yw'r safonau'n nodi p'un a oes angen isafswm neu uchafswm lefel yr hyfforddiant ar gyfer pob grŵp.

Dylai'r safonau gyfeirio sefydliadau i asesu risg lefel yr hyfforddiant ar gyfer categorïau staff o fewn eu sefydliad a'u pennu i grwpiau A-E yn unol â hynny.

**13. A oes ymdriniaeth ddigonol ag arferion yn canolbwyntio ar y plentyn / unigolyn yn y safonau? Os oes unrhyw beth ar goll neu'n ddiangen, rhowch wybod i ni yn y blwch isod.**

Oes ☐ Nac oes ☒

Nid yw arferion yn canolbwyntio ar y plentyn / unigolyn yn ymddangos o fewn yr hyfforddiant arfaethedig ar gyfer ymarferwyr yng ngrwpiau A a F.

Mae'n hynod bwysig, o fewn cyd-destun addysgol, fod ymarferwyr yng ngrŵp F yn cael hyfforddiant ar hyrwyddo arferion yn canolbwyntio ar y plentyn / unigolyn. Mae'r ymarferwyr hyn yn cynnwys y cyrff llywodraethol sy'n darparu goruchwyliaeth hanfodol o drefniadau diogelu o fewn darparwyr addysgol ac yn gweithredu fel ffrindiau beirniadol. Os nad oes gan yr ymarferwyr sy'n cynnwys cyrff llywodraethol ddealltwriaeth ddigonol o egwyddorion arferion yn canolbwyntio ar y plentyn / unigolyn, byddant yn llai tebygol o fod yn effeithiol o ran hyrwyddo'r ymagwedd hon, neu'n nodi ble mae angen gwella'r arferion hyn.

Byddem yn argymell y dylai pob ymarferwr gael hyfforddiant ar arferion yn canolbwyntio ar y plentyn / unigolyn, ac rwy'n meddwl y dylid ychwanegu hyn at y gofyniad hyfforddi ar gyfer pob grŵp.

**14. Beth fydd effeithiau ein cynigion ar y Gymraeg, yn benodol ar:**
**i) gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg**
**ii) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.**
**Sut gallem ni gynyddu'r effeithiau cadarnhaol neu leihau'r effeithiau negyddol?**

Nid yw llawer o gyrsiau hyfforddiant diogelu sydd ar gael yn fasnachol yn benodol i Gymru. Fodd bynnag, bydd angen newid hyn i gyflawni'r safonau hyfforddiant.

Wrth ddatblygu deunyddiau hyfforddi newydd, dylid eu hysgrifennu yn Gymraeg ac yn Saesneg a'u cyhoeddi ar yr un pryd naill ai fel dogfen ddwyieithog neu ar wahân yn y ddwy iaith.

Pan gyflwynir cyrsiau hyfforddi newydd, naill ai'n rhithwir neu wyneb yn wyneb, dylid eu cynnig mewn fformatau Cymraeg a Saesneg fel ei gilydd, gan felly gynnig mwy o gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg.

**15. A yw'r safonau'n cael effaith ar y rhai â nodweddion gwarchodedig?**

*Y nodweddion gwarchodedig yw oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred, rhyw a chyfeiriadedd rhywiol.*

| | | | |
|---|---|---|---|
| Ydyn | ☒ | Nac ydyn | ☐ |

Datblygwyd y safonau hyfforddiant i wella'r cysondeb o ran dyluniad, cynnwys a darpariaeth hyfforddiant diogelu yng Nghymru. Os ydynt yn llwyddiannus, bydd y safonau'n cynyddu ymwybyddiaeth o ddiogelu a gwybodaeth amdano o fewn lleoliadau, ac rydym yn gobeithio y bydd hyn yn golygu deilliannau gwell i'r holl blant ac oedolion, gan gynnwys unrhyw rai sydd â nodweddion gwarchodedig.